**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd**
**Dydd Mawrth 12 Mai 2020, 1-2pm**
**Telegynhadledd**

| | |
|---|---|
| <u>**Yn Bresennol**</u> | |
| | |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | |
| Y Cynghorydd Huw Thomas | Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) |
| **(Cadeirydd)** | Cadeirydd Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, (BIP |
| Charles Janczewski **(Is-** | CaF) |
| **gadeirydd)** | Prif Weithredwr, CC |
| Paul Orders | Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC |
| Sarah McGill | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Fiona Kinghorn | Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Abigail Harris | Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Michael Evans | (CNC) |
| Keith Meredith | Rheolwr Grŵp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) |
| Tim Morgan | Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru |
| Mark Brace | Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu, Heddlu De Cymru |
| Hannah Williams | Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Sheila Hendrickson-Brown | (GPC) |
| Jo Salway | Prif Swyddog Gweithredol, C3SC |
| | Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| Len Richards | |
| Huw Jakeway | Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Stephen Jones | Prif Swyddog Tân, GTADC |
| Wendy Gunney | Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru |
| | Prif Uwch-arolygydd Dros Dro, Heddlu De Cymru |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Gareth Newell | |
| Sian Sanders | Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC |
| Anne Wei | Rheolwr Gweithredol Diogelwch Cymunedol, Cydlyniant ac |
| Nathan Swain | Ymgysylltu, CC |
| Clive Bailey (Clerc) | Rheolwr Partneriaethau a Chynllunio Strategol, BIP CaF |
| | Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC |
| | Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso a Chyflwyniadau**<br><br>Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.<br><br>Croesawyd Michael Evans, Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, i'w gyfarfod cyntaf, yn dilyn ymddeoliad John Hogg. | |
| 2. | **Y sefyllfa bresennol**<br><br>Diolchodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i'r holl bartneriaid a staff y sector cyhoeddus am eu hymdrechion hyd yma, gan dynnu sylw at gyfraniad gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau allweddol.<br><br>Rhoddodd aelodau'r Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am statws gweithredol eu sefydliad a materion i bartneriaid fod yn ymwybodol ohonynt.<br><br>Mae cynllun diogelu iechyd sy'n cwmpasu cyswllt ac olrhain, gwyliadwriaeth a phrofion poblogaeth wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.<br><br>Cynhaliwyd trafodaeth ar y dull partneriaeth o sicrhau capasiti cwarantîn digonol o fewn Cartrefi Gofal - y mae Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Caerdydd yn arwain arno.<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Cais am gyllid Trawsnewid BPRh i'w rannu gyda BGC Caerdydd | Abigail Harris |
| 3. | **Dychwelyd a rhyddhau cyfnod clo'n raddol**<br><br>Rhoddodd partneriaid drosolwg o'r gwaith/cynllunio sy'n cael ei wneud mewn ymateb i lacio'r cyfnod clo.<br><br>Crynhodd y Cadeirydd y camau nesaf gan amlinellu'r problemau allweddol sy'n gofyn am weithio mewn partneriaeth.<br><br>**CAM GWEITHREDU:**<br>• Cyfarfod nesaf y BGC i'w gynnal wythnos yn dechrau 25 Mai. Agenda i ganolbwyntio ar lacio'r cyfyngiadau symud a dull Caerdydd o olrhain cysylltiadau. | Ysgrifenyddiaeth |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 4. | **Adfer ac Adnewyddu'r Ddinas**<br><br>Bydd Cabinet Cyngor Caerdydd yn ystyried papur ar 'adfer ac adnewyddu' ym mis Mehefin.<br><br>Amlygodd aelodau BGC y cyfle i ddysgu o'r ymateb i'r sefyllfa bresennol. | |
| 5. | **Unrhyw fusnes arall**<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Datganiad i'w ddosbarthu i staff sy'n aelodau o'r BGC yn cipio cynnwys y cyfarfod hwn.<br>• Cyfarfod nesaf i'w gynorthwyo gan dechnoleg fideo. | Ysgrifenyddiaeth<br><br>Ysgrifenyddiaeth |
| | **Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:**<br>• BGC Caerdydd 29 Mai 2020, 2pm<br>• Cyfarfod Pennu Agenda 11 Mehefin 2020<br>• BGC Caerdydd 14 Gorffennaf 2020 | |